# Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

# The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

## CYNLLUN RHEOLI SAFLE

Adolygiad Canol Tymor ac Atodiad 2025/26

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **3**
**Rhagair** **4**
**Rhagymadrodd** **5**

**Diweddariadau Cyffredinol** **7**
- Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol 7
- Cyfiawnhau yr Arysgrifio 8
- Gweledigaeth y Safle Treftadaeth y Byd 9
- Cywiriadau a Diweddariadau Cyffredinol 10

**Thema 1: Llywodraethu a Rheoli** **11**
- Newidiadau 11

**Thema 2: Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** **13**
- Newidiadau 13
- Diweddariadau 16

**Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** **22**
- Newidiadau 22

**Thema 4: Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** **27**
- Newidiadau 27

**Thema 5: Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru** **34**
- Newidiadau 34

**Cynllun Gweithredu 2025 - 2030** **38**
- Cyflwyniad 38
- Thema 1: Llywodraethu a Rheoli 39
- Thema 2: Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 41
- Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 47
- Thema 4: Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 53
- Thema 5: Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 60

# Cyflwyniad

Un o ofynion UNESCO yw cynhyrchu a mabwysiadu Cynllun Rheoli ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd, a'u hadolygu'n rheolaidd, ac mae gwneud hyn yn greiddiol i'r dull a argymhellir gan Weinidogion Cymru ar gyfer diogelu'r safleoedd pwysig hyn. Mae'n darparu cyswllt pwysig rhwng gofynion rhyngwladol UNESCO ar un llaw, a dyheadau a gofynion cymunedau lleol ac awdurdodau rhanbarthol ar y llaw arall.

Fel rhan o'r broses arysgrifio ar gyfer enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, cydweithiodd partneriaid strategol i ddatblygu Dogfen Enwebu a Chynllun Rheoli cysylltiedig.

Roedd y partneriaid yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prifysgol Bangor, Amgueddfa Cymru a Heneb - Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru. Datblygwyd y Cynllun Rheoli hefyd drwy sesiynau ymgynghori gyda chymunedau lleol, cyfarfodydd gyda thirfeddianwyr, busnesau, cynghorau cymuned, a phroses ymgynghori ar-lein.

Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli, mae pedair blynedd bellach wedi mynd heibio ers derbyn yr arysgrifiad, ac mae'n amserol ein bod yn adolygu ei gynnwys ar ei ganolbwynt. Mae oes y Cynllun Rheoli yn 2020–2030, felly bydd yr adolygiad hwn yn gwasanaethu hyd at ddiwedd y cynllun presennol, ac yn 2030 caiff Cynllun Rheoli newydd ei greu.

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru na fyddai'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli yn ailysgrifennu'r Cynllun gwreiddiol yn llawn, ond yn hytrach yn gyfle i gywiro unrhyw elfennau a diweddaru unrhyw ffeithiau neu wybodaeth allweddol gan fod y rhan fwyaf o'r cynllun yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae ein Cynllun Rheoli yn ddogfen fyw sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn greiddiol i'r cynllun, mae pum thema sy'n gosod y drefn o ran sut caiff Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ei rheoli, sut y gofalir amdani, sut caiff ei datblygu a'i mwynhau, a sut gallwn addysgu pobl amdani.

Mae'r atodiad hwn i'r Cynllun Rheoli yn cynnwys unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau sydd wedi'u gwneud i bob thema trwy dynnu sylw at y testun gwreiddiol mewn un golofn a thrwy gynnwys y testun diwygiedig neu newydd mewn ail golofn. Ni fyddwn yn ail-ddrafftio'r testun gwreiddiol i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig hefyd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cynnwys yr atodiad ac i sicrhau dull effeithiol o fesur effaith gweithredu'r Cynllun Rheoli.

Dylech gyfeirio at yr atodiad hwn pan fyddwch yn cyfeirio at unrhyw elfennau o'r Cynllun.

# Rhagair



## Cynghorydd Nia Jeffreys

Arweinydd, Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn hynod falch o weithredu fel y corff arweiniol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Ers sicrhau'r statws yn 2021, rydym wedi cydweithio'n agos â'n partneriaid ar draws y rhanbarth i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol hon, ac mae'n galonogol gweld ffrwyth y gwaith hwn yn ymddangos mor glir yn ystod pum mlynedd gyntaf y dynodiad. Mae gweld y weledigaeth hon yn raddol ddod yn realiti—er budd ein cymunedau, ein busnesau a'n tirwedd lechi—yn rhoi sail gadarn i ni ar gyfer y cyfnod nesaf o weithgarwch.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Gwynedd a'n partneriaid yn parhau i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd yn gyfrifol ac yn gynaliadwy, gan warchod ein treftadaeth eithriadol a sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dirwedd rymus hon yn briodol ac o'r ansawdd uchaf.

Drwy brosiectau cymunedol megis LleCHI LleNI, rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cymunedau—yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol, yn adnewyddu diddordeb ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion yn ein stori leol a rhyngwladol, ac yn buddsoddi yn isadeiledd ein broydd i'w gwneud yn lefydd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â hwy.

Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio er budd ein dyffrynnoedd llechi—ar gyfer pobl Gwynedd a'r byd ehangach—gan greu etifeddiaeth gadarn ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod. Mae hon yn stori sy'n rhoi Gwynedd ar fap y byd; stori sy'n bwysig nid yn unig i'n ddoe a'n heddiw, ond hefyd i'n yfory. Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i fanteisio ar gyfoeth ein treftadaeth llechi, gan sicrhau llewyrch a budd i holl gymunedau'r ardal.



# Rhagymadrodd



## Dafydd Wigley

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Wigley o Gaernarfon, Cyfrin Gynghorydd
Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth

Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, mae'n bleser o'r mwyaf imi gyflwyno'r diweddariad canol-tymor hwn i Gynllun Rheoli Llechi Cymru ar ran Cyngor Gwynedd a'n partneriaid. Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith sy'n ein galluogi i reoli newid yn y Safle Treftadaeth y Byd yn ofalus ac yn gyfrifol, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r statws rhyngwladol hwn i warchod, hyrwyddo a gwella ein rhanbarth er budd ein cymunedau, ein busnesau a'n hymwelwyr. Nid ydym wedi ymgymryd â phroses o ail-ysgrifennu'r Cynllun Rheoli gwreiddiol, ond fe welwch o gyflwyniad y ddogfen hon ein bod wedi diweddaru a chywiro lle'n briodol.

Ers sicrhau'r statws yn 2021, rwyf yn ymfalchïo yn y cynnydd sylweddol a wnaed ar draws y dirwedd llechi. Mae'r ffaith ein bod eisoes wedi denu buddsoddiad o dros £35 miliwn yn dystiolaeth glir o effaith gadarnhaol y dynodiad, ac yn arwydd ein bod yn gweithredu'n bwrpasol tuag at ein gweledigaeth o amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu rhinweddau arbennig yr ardal; atgyfnerthu ein hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg; a sbarduno adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

Rwy'n arbennig o falch o'r modd y mae ein gweithgareddau partneriaethol wedi dod â'n broydd llechi ynghyd—yn dathlu eu gwahaniaethau unigryw, ond hefyd yr elfennau sy'n ein huno.

Mae'r gwaith hwn yn linyn arian sy'n ein galluogi i greu un Safle Treftadaeth y Byd cydlynol sy'n parchu'r gorffennol, yn meithrin balchder yn y presennol ac yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Er ein bod yn Safle Treftadaeth y Byd cymharol newydd, mae'r gydnabyddiaeth a'r enw da sydd gan Llechi Cymru y tu hwnt i'n hardal yn dangos ein bod yn cyflawni gwaith arloesol ac o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Dyna pam y mae'r Cynllun Rheoli hwn mor hanfodol: mae'n sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn rheoli'r Safle yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan hyrwyddo tirwedd fyw sy'n cynnal ein hiaith, ein diwylliant, ein cymunedau a'n heconomi.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cefnogi ein gwaith dros y pum mlynedd diwethaf. Yn arbennig, diolch i'n partneriaid strategol am eu cydweithrediad didwyll a'u cefnogaeth amhrisiadwy. Wrth edrych ymlaen, rydym yn llawn brwdfrydedd i barhau i fanteisio ar gyfoeth ein treftadaeth er budd ein cymunedau lleol.



# Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol

Diwygiwyd y Datganiad arfaethedig o Werth Rhyngwladol Eithriadol fel rhan o'r broses asesu gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd, ac mae'r Datganiad o Werth Rhyngwladol oedd yn sail i arysgrifio Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru fel a ganlyn:

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, yn y gadwyn o fynyddoedd sy'n cynnwys yr Wyddfa. Gyda'i gilydd, mae'r chwe ardal yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwydiannol a luniwyd yn gyfan gwbl bron gan chwarela a chloddio am lechi, a chludo'r cynnyrch i farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. O 1780 hyd 1940, y diwydiant hwn a deyrnasai dros gynhyrchiant llechi to drwy'r byd, gan drawsnewid yr amgylchedd a'r cymunedau a drigai ac a weithiai yma.

Mae'r chwareli a'r mwyngloddiau yn anferthol, ac yn cynnwys ponciau chwarel ar lethrau'r bryniau, pyllau dwfn, siambrau tanddaearol ceudyllog, tomennydd rhaeadrol enfawr, systemau dŵr dyfeisgar, ac amrediad o adeiladau diwydiannol. Mae offer technegol eithriadol a nodweddion peirianneg pwysig wedi goroesi.

Roedd systemau cludiant arloesol yn cysylltu'r chwareli a safleoedd prosesu i harbyrau allforio arfordirol pwrpasol ac i reilffyrdd prif lein.

Mae'r plastai a'r ystadau mawreddog a adeiladwyd gan ddiwydianwyr blaenllaw yn cyferbynnu ag aneddleoedd gwerinol y gweithwyr, gyda'u capeli ac eglwysi nodweddiadol, cytiau seindorf, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyfarfod sy'n cynnal sawl enghraifft o'u ffordd draddodiadol o fyw a'u hiaith leiafrifol gref.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cynhyrchai'r ardal rhyw draean o lechi to a llechfeini pensaernïol yr holl fyd. Cyfrannodd y defnydd ohonynt mewn tai teras, ffatrïoedd, warysau, a phensaernïaeth elitaidd at drefoli cyflym yn fyd-eang. Dylanwadodd ar arddulliau adeiladau, gan ysbrydoli toeau crib isel y cyfnod Sioraidd.

Mae'r technolegau a gafodd eu harloesi, eu mabwysiadu a'u haddasu yn y diwydiant yn cynnwys y defnydd dyfeisgar o ynni dŵr, datblygiad systemau trin swmpus, a, hyd y gwyddys, y defnydd cyntaf o'r llif gron i dorri cerrig. Lledaenodd y technegau hyn drwy arbenigwyr ac wrth i chwarelwyr medrus allfudo o Gymru i ddiwydiannau llechi datblygol yr UDA, cyfandir Ewrop ac Iwerddon.

Cafodd systemau lein fach (rheilffyrdd culion) mynyddoedd yr Wyddfa ddylanwad yn fyd eang a chawsant eu mabwysiadu o Asia i America, i Affrica ac Awstralasia.

# Cyfiawnhau yr Arysgrifio

Roedd y cyfiawnhad am yr arysgrifiad a gyflwynwyd i Ganolfan Treftadaeth y Byd yn seiliedig ar dri maen prawf (ii), (iv) a (v).

Yn ystod y broses asesu, penderfynodd Pwyllgor Treftadaeth y Byd y byddai'r safle yn cael ei arysgrifio ar ddau faen prawf yn unig, gan ddileu maen prawf (v) o'r dynodiad, rhain yw:

Maen prawf (ii): Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn dangos cyfnewidiad pwysig, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.

Mae llechi wedi cael eu cloddio yng ngogledd orllewin Cymru ers oes y Rhufeiniaid; ond roedd cynhyrchiant toreithiog, hirhoedlog o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif yn tra-arglwyddiaethu dros y farchnad fyd eang fel deunydd to. Arweiniodd hyn at ddatblygiadau trawsgyfandirol mawr mewn adeiladu a phensaernïaeth.

Roedd technoleg, gweithwyr medrus a throsglwyddo gwybodaeth o'r dirwedd ddiwylliannol hon yn greiddiol i ddatblygiad y diwydiant llechi ar gyfandir Ewrop a'r Unol Daleithiau. Ar ben hynny, roedd ei rheilffyrdd cul – sy'n parhau i redeg ar stêm heddiw – yn fodel ar gyfer systemau olynol a gyfrannodd yn helaeth at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd mewn llawer i le arall yn y byd.

Maen prawf (iv): Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol o dirwedd chwarela a mwyngloddio llechi sy’n darlunio ehangder y trawsnewidiad o amgylchedd amaethyddol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

Roedd dyddodion enfawr o lechi o ansawdd uchel yn diffinio'r prif adnodd daearegol yn nhirwedd fynyddig heriol cadwyn yr Wyddfa. Mae lleoliadau gwasgaredig y dyddodion yn dynodi mannau crynodedig o ecsbloetio ac aneddleoedd; yr ynni cynaliadwy a gynhyrchwyd gan gyfaint anferthol o ddŵr a gasglwyd mewn ffyrdd dyfeisgar. A hyn yn ei dro yn arwain at reilffyrdd arloesol a thechnolegol flaengar, a ymlwybrai at borthladdoedd arfordirol newydd i wasanaethu'r fasnach allforio rhyng-gyfandirol hon.

Yn yr eiddo hwn ceir tiroedd hynod, ar wahân i'w gilydd, ond sydd gyda'i gilydd yn dangos treftadaeth amrywiol tirwedd llawer ehangach a grëwyd yn ystod y cyfnod pan ddaeth Prydain yn ddiwydiannol.

Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cario i adran 2.3 o'r Cynllun Rheoli, lle mae maen prawf (v) wedi'i gynnwys yn y wybodaeth sy'n ymwneud â phriodweddau allweddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r meini prawf arfaethedig. Mae'r priodweddau hynny a gyflwynwyd fel tystiolaeth o faen prawf (v) yn parhau i fod yn enghreifftiau dilys o briodweddau eraill o fewn Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, ac er bod y maen prawf wedi'i ddileu, nid yw'r priodweddau eu hunain yn cael eu colli.

# Gweledigaeth y Safle Treftadaeth y Byd

Fe ddiwygiwyd gweledigaeth Safle Treftadaeth y Byd yn dilyn ei arysgrifio, ac mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi cytuno fel a ganlyn:

**Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau’r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.**



# Cywiriadau a Diweddariadau Cyffredinol

Eiddo Enwebedig = Eiddo Arysgrifedig

Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig = Safle Treftadaeth y Byd

Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Arfaethedig = Gwerth Rhyngwladol Eithriadol

Gwynedd Council = Cyngor Gwynedd (yn y Saesneg)

Grŵp Llywio'r Bartneriaeth = Bwrdd Partneriaeth

National Museum of Wales = Amgueddfa Cymru (yn y Saesneg)

Partneriaeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru = Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd = Heneb

Snowdonia National Park Authority = Eryri National Park Authority (yn y Saesneg)

Snowdonia National Park = Eryri National Park (yn y Saesneg)

Tasglu Economaidd = Is-grŵp Buddion

Is-grŵp Dehongli a Throsglwyddo = Is-grŵp Dehongli

Tîm Cydlynu'r Prosiect = Grŵp Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd






Y Cob, Porthmadog © Cyngor Gwynedd

# Newidiadau

| Gwreiddiol | Diwygiad |
|---|---|
| Cywiriad | Nid oedd Heneb (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd gynt) ar aelodaeth wreiddiol y Bwrdd Partneriaeth. |
| Bydd pob tirfeddiannwr yn ymrwymo i Ddatganiad o Egwyddorion gyda Chyngor Gwynedd yn amlinellu eu hymrwymiad i'r Enwebiad ac unrhyw anghenion safle penodol sydd angen eu hystyried. | Ar ôl derbyn yr arysgrifiad, ni ddilynwyd y dull Datganiad o Egwyddorion oherwydd cytunwyd gyda'r tirfeddianwyr nad oedd angen y ddogfen ffurfiol unwaith roeddem wedi sicrhau'r statws STyB. Mae'r tirfeddianwyr yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r Safle Treftadaeth y Byd ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda nhw i sicrhau bod cyfathrebu clir a chyson yn parhau. |
| Mae is-grŵp Ymchwil ac Addysg wedi'i sefydlu. | Mi roedd addysg, sgiliau ac ymchwil yn rhan o gylch gwaith yr Is-grŵp Buddion ers yr arysgrifiad gan eu bod yn greiddiol i'r themâu a gwmpesir gan y grŵp hwn. Mae Is-grŵp Addysg bellach wedi'i sefydlu o fewn y strwythur rheoli. |
| Diagram Grŵp Llywio Partneriaeth STyB | Diagram Strwythur Rheolaeth STyB (gweler isod).<br><br>Yn dilyn arysgrifiad, mae strwythur rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd wedi cael ei adolygu a newidiadau wedi'u gweithredu gyda'r bwriad o gryfhau'r gynrychiolaeth gymunedol ar y Bwrdd, ac i ddiffinio rolau pob un o'r grwpiau yn glir fel bod y strwythur yn gweithredu mor effeithlon â phosibl. |

Strwythur Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru:



# Newidiadau

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Gwybodaeth Ychwanegol 5.2.1 | Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'i chyfres o is-ddeddfwriaethau cefnogol i rym llawn ar 4 Tachwedd 2024.<br><br>Yn dilyn mabwysiadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn llawn, nid yw'r Deddfau a oedd wedi darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli ac amddiffyn amgylchedd hanesyddol Cymru am ddegawdau - yn bennaf Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 - yn berthnasol yng Nghymru mwyach.<br><br>Mae'r Ddeddfwriaeth a Pholisi craidd canlynol yn berthnasol yn 2025:<br><br>• Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023<br>• Polisi Cynllunio Cymru 12 (2024)<br>• Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2025)<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn) 2017<br>• Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016)<br>• Canllaw Cynllunio Atodol - Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru (2021) |

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Caiff Ardaloedd Cadwraeth eu dynodi gan awdurdodau cynllunio lleol yn unol ag Adran 69 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig 'y mae'n ddymunol diogelu neu wella eu cymeriad neu olwg'. Mae ansawdd y lle felly yn un o'r prif ystyriaethau wrth eu hadnabod. Mae ardaloedd cadwraeth wedi eu hadnabod mewn naw lleoliad gwahanol yn Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru: o fewn Cydran 1 (pedair ym Methesda, ac eraill yn Llandygai, Tanysgafell, Eglwys y Santes Ann a Mynydd Llandygai) a Chydran 5 (Harbwr Porthmadog). Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ardaloedd cadwraeth ychwanegol ym Mlaenau Ffestiniog (Cydran 5) ac Abergynolwyn (Cydran 6). | Mae Adolygiadau Ardal Cadwraeth wedi cael eu cynnal ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth sy'n gorwedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Cyngor Gwynedd. Gellir gweld yr adroddiadau yma: Adnoddau \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE o dan y pennawd Cadwraeth.<br><br>Cynhaliwyd asesiad Ardal Cadwraeth ar gyfer Blaenau Ffestiniog (Cydran 5).<br><br>Mae ystyriaeth yn parhau ar gyfer yr angen i gynnal asesiad Ardal Cadwraeth ar gyfer Abergynolwyn (Cydran 6). |
| O 2019, bydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhoi rôl statudol ar Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru, rhestr gynhwysfawr o dirweddau addurniadol a chynlluniedig sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. | Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o safleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru. Daeth y gofrestr statudol hon i rym ar 1 Chwefror 2022 ac mae'n cynnwys bron i 400 o safleoedd ar draws Cymru, gan gynnwys dau barc a gerddi hanesyddol cofrestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd yng Nghastell y Penrhyn (Gradd II*) a Phlas Tan y Bwlch (Gradd II*). |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Gwybodaeth Ychwanegol | Mae cyflwr yr Adeiladau Rhestredig yn cael ei fonitro yn gylchol drwy Raglen Arolwg Cyflwr Cymru Gyfan, Cadw. Cynhaliwyd yr arolygon diweddaraf yn 2013 (Parc Cenedlaethol Eryri) a 2014 (Gwynedd). Dechreuodd cyfres newydd o arolygon yn 2024 gydag asesiad o adeiladau yn Eryri wedi'i raglennu ar gyfer 2025 a Gwynedd yn 2026.<br><br>Cyhoeddodd Llechi Cymru Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth (2023) er mwyn darparu canllaw penodol ar gyfer rheoli adeiladau hanesyddol o fewn Safle Treftadaeth y Byd y Dirwedd Llechi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion allweddol adeiladau, a chyngor ymarferol ar gynnal a chadw, atgyweirio a gwelliannau, gan ddangos sut i warchod ac adnewyddu cymeriad adeilad. |
| Mae'r Cynllun Rheoli Eiddo Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru hwn yn sefydlu'r strategaethau a mecanweithiau trosfwaol y bydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael ei reoli ganddo er mwyn cynnal ei Werth Rhyngwladol Eithriadol. Ar lefel leol, caiff y rhain eu gweithredu trwy Gynlluniau Rheoli Lleol a ddatblygwyd ar y cyd â thirfeddianwyr unigol ac sy'n cynnwys argymhellion ymarferol wedi'u llunio i roi i berchnogion a rheolwyr tir y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w helpu i reoli eu hasedau hanesyddol. | Mae adolygiad o fformat a chynnwys y Cynlluniau Rheoli Lleol ar waith. Yn dilyn arysgrifio'r Safle Treftadaeth y Byd yn 2021, dechreuodd y gwaith ar baratoi Cynlluniau Rheoli Lleol i ddarparu arweiniad rheoli ar gyfer perchnogion asedau unigol. Adlewyrchodd adborth gan dderbynyddion bryderon nad oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn adlewyrchu anghenion perchnogion yn llawn ac y byddent yn ffafrio fformat diwygiedig gyda dull wedi'i deilwra. Yn ogystal, mae darpariaeth cyngor rheoli cyffredinol drwy gyhoeddi Gofalu am y Tirwedd Llechi a Cymunedau Llechi Gwynedd: Gofal a Chadwraeth yn dileu'r gofyn i gynlluniau unigol gynnwys lefelau uchel o fanylder. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r penderfyniadau hyn. |

# Diweddariadau

5.2 Gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd

Cofrestru

Tabl 5.1 Henebion Cofrestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'r rhai hynny sy'n bodloni'r meini prawf cofrestru.

| **1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 1.1 | Chwarel y Penrhyn | CN416 Chwarel y Penrhyn: ardaloedd creiriol, ysbyty chwarel a lefelau dan-ddaear | |
| 1.2 | Melinau Llechfeini Felin Fawr | CN297 Gwaliau Llechi | |
| 1.3 | Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn | CN380 Traphont Cegin<br>CN415 Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn | |
| 1.3 | Rheilffordd Chwarel y Penrhyn | CN417 Rheilffordd Chwarel y Penrhyn | |





Chwarel Penrhyn © Hawlfraint y Goron CBHC

| 2. **Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 2.1 | Chwarel Dinorwig | CN337 Chwarel Dinorwig | Tomennydd Llechi Dwyreiniol Dinorwig - posib diwygio'r Heneb Gofrestredig presennol |
| 2.2 | Ponc 'Australia' | CN337 Chwarel Dinorwig | |
| 2.3 | Y Dre' Newydd (Barics Môn) | CN177 Barics Chwarel Dinorwig / Inclên A | Tomennydd Llechi Gorllewinol Dinorwig - posib diwygio'r Heneb Gofrestredig presennol |
| 2.4 | Inclên V2 / Chwarel Lechi'r Vivian | CN198 Chwarel Lechi'r Vivian, Incleiniau, gwaliau a strwythurau cysylltiedig | |
| 2.5 | Cyfadeiladau Peiriannu Chwarel Dinorwig. Amgueddfa Lechi Cymru | CN163 Injan Weindio Hafod Owen, Sied Locomotif, Prif Olwyn Ddŵr a'i Lloches | |





Chwarel Dinorwig © Hawlfraint y Goron CBHC

| 3. **Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 3.2 | System Rhaffordd Awyr 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae Slate | CN301 Chwarel Blaen y Cae | |
| 3.3 | Chwarel Lechi Dorothea | CN199 Chwarel Dorothea, Pyramidiau, Incleiniau, Melin a Llochesi Weindio | |
| 3.4 | Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea | CN165 INjan Drawst Chwarel Dorothea | |
| 3.5 | Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn, Systemau Rhaffyrdd Awyr, Melin Lechi, Barics ac Aneddiadau | CN302 Chwarel Cloddfa'r Lôn<br>CN419 Chwarel a thomennydd Pen Y Bryn | |
| 3.7 | Chwarel Pen yr Orsedd | CN208 Chwarel, 'Blondins' a strwythurau cysylltiedig Pen yr Orsedd | Strwythurau, inclein a thomennydd Charwel Pen yr Orsedd - posib diwygio'r Heneb Gofrestredig presenol |
| 3.8 | Rhaffordd 'Blondin' Pen yr Orsedd | CN208 Chwarel, 'Blondins' a strwythurau cysylltiedig Pen yr Orsedd | |
| 3.9 | Rheilffordd Nantlle | CN420 Rheilffordd Nantlle a Hen Dalysarn | |
| 3.12 | Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn | CN420 Rheilffordd Nantlle a Hen Dalysarn | |





Chwarel Dorothea © Hawlfraint y Goron CBHC

| 4. **Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru, y Rheilffyrdd a'r Felin** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 4.1 | Chwarel Gorseddau | CN303 Chwarel Gorseddau | |
| 4.2 | Chwarel Bwlch y Ddwy Elor Cymru | CN410 Chwarel Tywysog Cymru | |
| 4.3 | Melin Lechfeini Ynysypandy | CN160 Melin Llechfeini Ynysypandy | |
| 4.4 | Rheilffordd Gorseddau, Cyffordd Gorseddau a Rheilffyrdd Porthmadog | | Rheilffordd Gorseddau, Cyffordd Gorseddau a Rheilffyrdd Porthmadog |
| 4.5 | Pentref Treforys | CN321 Aneddiad Chwarel Anghyfannedd Treforys | |





Melin Lechi Ynysypandy © Hawlfraint y Goron CBHC

| 5. **Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 5.1 | Chwareli Ffestiniog - Y Tirffurf Arwynebol | CN414 Chwarel Rhiwbach, System Tramffordd ac Inclein<br>CN422 Tomennydd Chwarel yr Oakeley<br>CN425 Chwarel Cwmorthin, pwll, rheilffordd a nodweddion ategol<br>CN423 Chwarel Wrysgan | Chwarel Graig Ddu |
| 5.4 | Melin Chwarel Diffwys | CN413 Chwarel Diffwys | |
| 5.8 | Ceiau llechi ar Afon Dwyryd | ME108 Cei Tyddyn Isa | |
| 5.9 | Rheilffordd Ffestiniog | CN426 Rheilffordd Talyllyn: rhannau creiriol i'r de o Danygrisiau | |


Blaenau Ffestiniog a'i chwareli © Hawlfraint y Goron CBHC

| 6. **Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn** | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydrannau ac Elfennau | Henebion Cofrestredig | |
| | | Dynodedig | Arfaethedig |
| 6.1 | Chwarel Bryneglwys - Tirffurf Arwynebol a Bastiwn Rhaffordd yr Inclein Tsiaen | ME186 Inclein Tsiaen Gyriant Dŵr yn Chwarel Bryneglwys<br>ME205 Inclên Chwarel Alltwyllt | Diwygiad i'r Henebion Gofrestredig presennol i gynnwys tomennydd a rheilffordd |
| 6.2 | Gweithfeydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys | | Diwygiad i ME186 i gynnwys gweithfeydd tanddaearol |
| 6.4 | Rheilffordd Talyllyn | | Ffurf Rheilffordd Talyllyn |






© Rheilffordd Talyllyn

## Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

# Newidiadau

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Mae hyrwyddo a diogelu treftadaeth, diwylliant, tirweddau ac iaith unigryw'r rhanbarth oll yn flaenoriaethau yng Nghynllun Economaidd Llechi Cymru | Mae hyrwyddo a diogelu treftadaeth ddiwydiannol, diwylliant, tirweddau ac iaith unigryw y rhanbarth yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu o fewn cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol.<br><br>Ni ddatblygwyd Cynllun Economaidd Llechi Cymru pwrpasol, fodd bynnag, crëwyd Cynlluniau Cynefin ar gyfer pob cydran sy'n rhestru blaenoriaethau economaidd ac adfywio, sy'n bwydo i mewn i'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy, Cynllun Datblygu Economaidd Gwynedd, Gweledigaeth Ddiwylliannol Gwynedd a'r Cynlluniau Ardal Lleol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol | Mae sicrhau llesiant yn ganolog i Bolisi Cynllunio Cymru (2024), ac felly i'r Fframwaith Cynllunio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: Creu lleoedd \| Design Commission for Wales |



Piler Llechi gan Howard Bowcott, Porthmadog

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid eisoes wedi sicrhau cyllid o wahanol ffynonellau gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Undeb Ewropeaidd i ddatblygu cyfres o strategaethau a gweithgareddau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer cyrchfannau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae ymdrechion yn parhau a byddant yn parhau i'r dyfodol i sicrhau cyllid i ddatblygu cyfleoedd adfywio. | Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid eisoes wedi sicrhau cyllid o wahanol ffynonellau gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth y DU a chyllid cynharach yr Undeb Ewropeaidd i ddatblygu cyfres o brosiectau a gweithgareddau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer cyrchfannau a chymunedau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd ac yn gyfagos iddo.<br><br>Ers ei arysgrifio, mae buddsoddiad uniongyrchol drwy brosiectau sy'n cael eu harwain gan Gyngor Gwynedd wedi sicrhau £38.8m ar gyfer prosiectau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Nid yw hyn yn cyfrif am fuddsoddiad sector preifat a grantiau a sicrhawyd gan bartneriaid allanol; mae'r gwir ffigwr yn sylweddol uwch.<br><br>Bydd ymdrechion yn parhau i'r dyfodol i sicrhau cyllid pellach i ddatblygu cyfleoedd economaidd ac adfywio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol 6.1.1 | Ochr yn ochr â'r Cynlluniau Datblygu Lleol, mae Canllaw Cynllunio Atodol hefyd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol fel teclyn i ddatblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ystyried datblygiadau o fewn ac yn agos i'r Safle Treftadaeth y Byd. |
| Mae cynlluniau ar raddfa fawr yn darparu budd economaidd trwy gyflogaeth uniongyrchol a thwristiaeth fel sy'n digwydd yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig. | Gall cynlluniau priodol ar raddfa fawr ddarparu budd economaidd trwy gyfleoedd cyflogaeth a thwristiaeth uniongyrchol fel y gwelwyd yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig cyn cau'r Mynydd Gwefru. |



Bloc Croeso Parc Padarn

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Mae cyfleoedd adfywio yn sgil treftadaeth a allai ddod i'r amlwg yn ystod oes y Cynllun Rheoli yn cynnwys datblygiadau yn Chwareli Dorothea a Llechwedd, ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda, ac o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect LleCHI. Bydd y prosiect LleCHI yn creu Cynllun Cynefin, sef cynllun adfywio cymunedol ar gyfer pob un o'r prif aneddleoedd sy'n gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, sy'n amlinellu syniadau ar gyfer prosiectau adfywio sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth. | Mae cyfleoedd adfywio yn sgil treftadaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod oes y Cynllun Rheoli yn cynnwys datblygiadau a phrosiectau yn Chwareli Penrhyn, Dorothea a Llechwedd, yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Llanberis, Tywyn, Porthmadog, Penygroes ac eraill o ganlyniad uniongyrchol i'r arysgrifiad. Crëwyd Cynllun Cynefin, sef cynlluniau adfywio cymunedol ar gyfer pob un o'r prif aneddleoedd sy'n gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd, gan amlinellu syniadau ar gyfer prosiectau adfywio sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth, a darparu ffocws ar gyfer gweithgareddau adfywio cynnar o fewn y cymunedau ar ôl yr arysgrifiad. Ers hynny, mae gweithgareddau adfywio o fewn y Safle Treftadaeth y Byd ac yn gysylltiedig ag ef, yn seiliedig ar Gynlluniau Creu Lleoedd, Cynlluniau Ardal Cyngor Gwynedd, blaenoriaethau strategol a chyd-greu cymunedol. |





Neuadd Ogwen, Bethesda

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth gyfrifol a chynaliadwy ac yn cydnabod y gall yr arysgrifiad effeithio ar ardaloedd a chymunedau. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn adolygu ei strategaeth twristiaeth a rheoli cyrchfan, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cynllun Rheoli Cyrchfan a Thwristiaeth newydd yn ystod 2020. Bydd y cynllun newydd yn rhoi ystyriaeth i nod Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o weld twristiaeth fel sbardun i dwf economaidd, datblygu cynhwysol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae'r egwyddorion sy'n dod i'r amlwg yng Ngwynedd yn cynnwys: dathlu pa mor unigryw yw'r ardal a'r iaith Gymraeg, Cymunedau Byw a Chynaliadwy, Gwell Gwerth o'r sector i gymunedau a phobl, Gweithio mewn Partneriaeth, Llesiant a Chynaliadwyedd. | Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth gyfrifol a chynaliadwy ac yn cydnabod y gall yr arysgrifiad effeithio ar ardaloedd a chymunedau.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi arwain datblygiad Cynllun Economi Ymwelwyr Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r cynllun newydd yn ystyried nod Twristiaeth y Cenhedloedd Unedig o weld twristiaeth fel sbardun i dwf economaidd, datblygu cynhwysol, a chynaliadwyedd amgylcheddol.<br><br>Mae'r cynllun yn mabwysiadu'r weledigaeth ganlynol: "Economi Ymwelwyr er budd a lles Pobl, yr Amgylchedd, Iaith a Diwylliant Gwynedd ac Eryri" ac mae'n adnabod tair egwyddor i gyflawni'r weledigaeth. |
| Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor, gan nodi y bydd yn codi premiwm o 50 y cant ar eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ei ddodrefnu'n sylweddol am gyfnod o 12 mis neu fwy, o 1 Ebrill 2018 ymlaen. | Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor ers mis Ebrill 2018. O 1 Ebrill 2026 ymlaen bydd hyn yn cael ei godi ar 150%. |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Efallai y bydd amaethyddiaeth yng Nghymru yn dioddef am nad yw cymorthdaliadau Ewropeaidd ar gael mwyach, ond mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sawl cynllun gyda'r bwriad o annog cymunedau ffermio i gydweithredu i ofalu am eu tir mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. Gall cynlluniau ystyrlon ddod â manteision i arferion ffermio a chadwraeth yr amgylchedd hanesyddol. Gall adfer terfynau caeau, trwsio giatiau a chynnal a chadw llwybrau oll gynorthwyo gyda rheolaeth tir dda, ynghyd â chynnig manteision i ymwelwyr a chadwraeth. | Ers i'r DU adael yr UE, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw Polisi Amaethyddol a Gwledig, gan gynnwys cymorthdaliadau a chynlluniau cymorth. |
| Gwybodaeth Ychwanegol 6.7 | Nod Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2025-2030) yw gwella cysylltedd a gwella ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Trwy flaenoriaethu buddsoddiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus, isadeiledd teithio llesol ar gyfer beicio a cherdded, a datblygu datrysiadau symudedd arloesol, mae'r RTP yn anelu i leihau'r ddibyniaeth ar ddefnydd ceir preifat a hyrwyddo opsiynau teithio mwy cyfeillgar i'r amgylchedd. |





Pont Sarnau, Bethesda

# Newidiadau

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, dan arweiniad Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, wedi comisiynu Strategaeth Ddehongli ac wedi rhoi sylw i faterion iechyd a diogelwch. | Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn gweithredu yn unol â Strategaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Ers yr arysgrifio, mae Strategaeth Ddehongli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Cymru wedi'i gweithredu, ac yn 2023, cafodd y strategaeth hon ei diweddaru er mwyn dangos natur newidiol disgwyliadau ymwelwyr, a'r hanesion newydd a gwahanol oedd angen eu hadrodd. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Llechi Cymru. |
| Mae cymunedau lleol wrth wraidd gwneud penderfyniadau ac adeiladu capasiti o fewn fframwaith Treftadaeth y Byd, gan greu amgylchedd y gall trigolion ei fwynhau, ac sy’n eu galluogi i ddatblygu sector twristiaeth egnïol a chroesawgar. | Mae cymunedau lleol wrth wraidd gwneud penderfyniadau ac adeiladu capasiti o fewn fframwaith Treftadaeth y Byd, gan greu amgylchedd y gall trigolion ei fwynhau, ac sy’n eu galluogi i ddatblygu sector twristiaeth egnïol a chroesawgar. |
| Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth wedi cefnogi digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ledled y rhanbarth, gan gynnwys cyflwyniadau, cyfarfodydd busnes, carnifalau a gweithgareddau ysgolion, i godi ymwybyddiaeth o'r enwebiad, gwella dealltwriaeth ac annog ymdeimlad o gyswllt â'u gorffennol. | Mae’r Bwrdd Partneriaeth wedi cefnogi digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ledled y rhanbarth, gan gynnwys cyflwyniadau, cyfarfodydd busnes, digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau ysgolion, i godi ymwybyddiaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd, gwella dealltwriaeth ac annog ymdeimlad o gysylltiad â'r gorffennol. |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Yn ogystal â'i adnoddau ei hun, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi sicrhau cyllid gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y sector preifat a'r Undeb Ewropeaidd, i ddatblygu cyfres o strategaethau a gweithgareddau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer lleoliadau allweddol a Chydrannau yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. | Yn ogystal â'i adnoddau ei hun, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi sicrhau cyllid gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y sector preifat, cyllid Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i ddatblygu cyfres o strategaethau a gweithgareddau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer cymunedau o fewn ac o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd. |
| Mae prosiect Treftadaeth Di Sylw? Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn grymuso cymunedau drwy ysbrydoli pobl ifanc ar draws Cymru i ddarganfod eu gorffennol. Yng Ngwynedd, mae'r prosiect hwn yng Nghydran 3 ar hyn o bryd ac mae'n canolbwyntio ar y ddiwydiant llechi, gweithio mewn partneriaeth agos gyda thirfeddianwyr chwareli, ysgolion cynradd ac uwchradd, busnesau lleol a grwpiau adfywio trydydd sector. Mae wedi cynnig llais i bobl ifanc wrth ddatblygu'r enwebiad Treftadaeth y Byd, a bydd yn galluogi i'w lleisiau gyfrannu at y strategaeth ddehongli. | Prosiect wedi dod i ben. |
| Mae'n rhedeg ar y cyd â phrosiect Cynllun Lle Arbennig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol LleCHI ['Lle CHI']. Mae gan y prosiect LleCHI sawl llinyn sydd oll yn gweithio tuag at adfywio cymunedau llechi drwy dreftadaeth. Mae'r prif elfennau yn cynnwys creu cynlluniau llysgennad, cefnogaeth i brosiectau cymunedol, datblygu strategaeth ddehongli a chynnal digwyddiadau. | Mae'r prosiect LleCHI wedi symud ymlaen at brosiect dilynol £2m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, LleCHI LleNI, sy'n rhedeg o 2024 - 2029, yn gweithio gyda chymunedau'r Dirwedd Lechi. |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Mae'r prosiect hefyd yn hwyluso ac yn ariannu Cynlluniau Cynefin [strategaeth adfywio sy'n seiliedig ar le] ar gyfer pob prif dref a phentref yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn partneriaeth â phob cymuned, yn ogystal ag asiantaethau, busnesau a mentrau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r Astudiaethau Cymeriad Trefol a gynhaliwyd fel rhan o'r broses enwebu, ac unrhyw ffynonellau gwybodaeth eraill. | Mae'r Cynlluniau Cynefin wedi cael eu defnyddio ers eu creu er mwyn denu cyllid i weithredu'r prosiectau blaenoriaeth ar gyfer y chwe chymuned. Mae blaenoriaethau y cynlluniau hyn bellach wedi'u cynnwys y Cynlluniau Ardal Adfywio Ardal Ni yng Ngwynedd. |





Taith Tywys gyda'r Llysgenhadon Llechi Ifanc

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Drwy edrych ar bryderon, risgiau a bygythiadau, adnabod dyheadau a chyfleoedd, a sefydlu cyfleoedd ariannu posib, bydd y strategaethau adfywio y cytunir arnynt yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan a Thwristiaeth Gwynedd sydd ar y gorwel. Mae Cynlluniau Cynefin ar waith ym Mlaenau Ffestiniog (Cydran 5) a Bethesda (Cydran 1), gyda strategaethau eraill ar y gweill ar gyfer yr aneddiadau eraill erbyn mis Ebrill 2020. | Drwy edrych ar bryderon, risgiau a bygythiadau, adnabod dyheadau a chyfleoedd, ac adnabod cyfleoedd ariannu posib, mae strategaethau adfywio Ardal Ni yn bwydo i mewn i Gynllun Gweithredu Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. |
| Bydd prosiectau Treftadaeth Di Sylw a LleCHI yn hyrwyddo llysgenhadon ifanc, cymunedol a busnes ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y llysgenhadon hyn yn cael hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau er mwyn iddynt gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr mewn ffordd ymarferol a chynhenid. Mae'r prosiectau hyn yn cysylltu cymunedau lleol â'u treftadaeth unigryw er mwyn hyrwyddo a gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. | Mae’r egwyddor o greu llysgenhadon wedi symud ymlaen ers y prosiect LleCHI cychwynnol, erbyn hyn mae gennym ni'r cynlluniau Llysgennad Eryri a Llysgennad Gwynedd fel rhan o weithgareddau craidd y ddau awdurdod, ac mae'r prosiect LleCHI LleNI yn rhedeg cynllun Llysgenhadon Ifanc ar gyfer pobl ifanc oedran ysgol uwchradd, sesiynau ysgol ar gyfer plant ysgol gynradd, a'r cwrs Cynefin a Chymuned ar draws y Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer oedolion sydd â diddordeb mewn bod yn llysgennad ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd a'u hardal leol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol | Yr Iaith Gymraeg<br><br>Mae'r prosiect LleCHI LleNI yn cefnogi nifer o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau, busnesau a'r sector addysg.<br><br>Cynhaliwyd ymchwil peilot er mwyn edrych ar effaith twristiaeth o fewn y dirwedd lechi ar y Gymraeg ac mae'n gwestiwn o fewn arolwg Trigolion Gwynedd ar dwristiaeth.<br><br>Mae cynrychiolydd o'r Uned Iaith Gymraeg yn eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth ac rydym yn parhau i archwilio ffyrdd ystyrlon o fesur effaith ein gwaith ar y Gymraeg. |

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Gwybodaeth Ychwanegol | Mae Croeso Cymru yn parhau i hyrwyddo blynyddoedd thematig yng Nghymru ac mae 2025 a 2026 yn Flwyddyn Croeso ac mae pobl yn cael eu gwahodd i 'deimlo'r Hwyl' yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda Croeso Cymru ac Eryri Mynyddoedd a Môr i sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu cyfeirio i'r llefydd priodol o fewn y Dirwedd Llechi ac ein bod yn parhau i gyfleu pwysigrwydd parchu'r dirwedd, ein cymunedau, diwylliant a'r iaith Gymraeg.<br><br>Yn dilyn Covid-19, mae'r economi ymwelwyr wedi gweld newidiadau yn lleol ac yn rhyngwladol gyda chynnydd yn y nifer o bobl na fuasent yn draddodiadol wedi ymweld â'r amgylcheddau gwledig, mynyddog ac ôl-ddiwydiannol sy'n ffurfio'r dirwedd llechi. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn denu llawer o bobl i ardaloedd oedd, yn draddodiadol, ond yn hysbys i gymunedau lleol. Rydym yn parhau i annog ymweliadau cyfrifol drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac wrth weithio gyda phartneriaid a dylanwadwyr i osgoi hyrwyddo ardaloedd sensitif neu beryglus yn y dirwedd.<br><br>Drwy weithio gyda busnesau a grwpiau cymunedol lleol, rydym yn anelu at annog economi ymwelwyr cynaliadwy. Mewn partneriaeth â safleoedd allweddol, byddwn yn datblygu model i reoli ymwelwyr i'r safle yn seiliedig ar 'Borth' yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol ac ar-lein gyda rhwydwaith o safleoedd allweddol sy'n adrodd stori'r dirwedd lechi. |
| Mae twristiaeth yn sector pwysig ar gyfer yr economi ranbarthol. Dengys ystadegau 2018 (Arolwg STEAM [Scarborough Tourism Economic Activity Monitor]) fel a ganlyn:<br><br>• Gwerth £1.118 biliwn i'r economi leol<br>• Dros 15,500 o swyddi'n cael eu cefnogi<br>• Dros 7.37 miliwn o ymweliadau y flwyddyn<br>• 18.73 miliwn o arosiadau dros nos<br>• 22.53 miliwn o ddyddiau twristiaeth blynyddol i Wynedd | Dengys ystadegau 2024 (Arolwg STEAM [Scarborough Tourism Economic Activity Monitor]) fel a ganlyn:<br><br>• Gwerth £1.72 biliwn i'r economi leol<br>• Cefnogi 17,000 o swyddi<br>• Cyfanswm o dros 8.02 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn<br>• 20.25 miliwn o ymwelwyr yn aros<br>• Cyfanswm o 24.20 miliwn o ddyddiau twristiaeth blynyddol i Wynedd |

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu, gan gynnwys ardal Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, wedi adnabod y cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau (SWOT) a ganlyn sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig:<br>DADANSODDIAD SWOT | Yn dilyn proses ddatblygu ac ymgynghori trylwyr, lansiwyd Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 ym mis Medi 2023.<br><br>Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn gryf ag amcanion Twristiaeth CU ac mae ganddo dri philer i gefnogi ei weledigaeth - "Economi Ymwelwyr er budd a lles Pobl, Amgylchedd, Iaith a Diwylliant Gwynedd ac Eryri"<br><br>Egwyddorion:<br><br>1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth<br>2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd<br>3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn drech nag unrhyw anfanteision<br><br>Mae'r Cynllun Strategol yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredu esblygol sy'n cael ei gyd-gynhyrchu yn flynyddol er mwyn cefnogi'r gwaith i gyflawni'r weledigaeth a'r egwyddorion. Caiff hyn ei ddatblygu gan Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 sy'n cynnwys rhanddeiliaid o gymunedau, busnesau a phartneriaid sector cyhoeddus. |
| • Y graig a'r gwaith prosesu<br>• Cludiant ac allforio<br>• Pobl a chymunedau<br>• Gweithwyr<br>• Gwneud arian<br>• Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth<br>• Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft<br>• Tirwedd a bioamrywiaeth<br>• Allforio syniadau a llechi ar draws y byd | • Y graig a'r gwaith prosesu<br>• Cludiant ac allforio<br>• Pobl<br>• Cynefin<br>• Grym a gwneud arian<br>• Ar y cyrion<br>• Tirwedd a bioamrywiaeth<br>• Cysylltiadau byd-eang<br><br>Gellir gweld y Cynllun Dehongli diwygiedig yma. |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Model Hwb, Lloeren a Sbroced | Mae'r partneriaid wedi penderfynu datblygu strwythur rheoli ymwelwyr a dehongli mwy cytbwys a thryloyw yn dilyn ystyriaeth o'r model hwb, lloeren a sbroced gwreiddiol. Bydd hyn yn seiliedig ar fodel eco-amgueddfa ac yn cynnwys meini prawf ar gyfer cynhwysiad fel rhan o'r rhwydwaith stori. Mae'r model yn cynnwys datblygu'r porth ffisegol yn yr Amgueddfa Lechi a phorth digidol trwy wefan Llechi Cymru, gyda rhwydwaith o bartneriaid yn adrodd hanes llechi ar draws y chwe chydran. Byddwn yn mabwysiadu dull 'dilyn y stori' fydd yn annog ymwelwyr i ddarganfod stori ehangach y Dirwedd Lechi. Bydd hyn yn cynnwys teithlyfrau, hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus ac annog ymweliadau â rhannau hygyrch Safle Treftadaeth y Byd. |
| Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, yn ôl ei natur ei hun, yn cynnwys tirffurfiau chwarel, mwyngloddiau a siafftiau sy'n gynhenid beryglus, yn ogystal â lleoliadau eraill ble mae diogelwch yn hanfodol, megis y rheilffyrdd gweithredol. | Mae neges gytunedig wedi'i datblygu er mwyn sicrhau gwybodaeth gyson ar draws yr holl sianeli cyfryngau cymdeithasol, y wefan, datganiadau i'r wasg a dehongli ffisegol megis byrddau gwybodaeth, sef:<br><br>Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn hynod o ddiddorol, ond o ganlyniad i'w natur gall fod yn bellennig, yn beryglus ac yn heriol. Mae cyfran sylweddol o'r dirwedd mewn perchnogaeth breifat ac mae rhywfaint yn dir lle na chaniateir unrhyw fynediad i'r cyhoedd.<br><br>Cyn i chi fynd ati i archwilio'r dirwedd lechi, dylech ofyn i chi eich hun, oes gen i hawl i fynd ar y safle yma? Ydi'r offer iawn gen i? Ydw i'n gwybod sut fydd y tywydd? Ydw i'n hyderus bod gennyf y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y diwrnod? Ewch i Adventuresmart.uk am wybodaeth am sut i fwynhau eich ymweliad yn ddiogel. |
| Mae ymgyrch diogelwch tirwedd lechi yn cael ei datblygu gyda rhanddeiliaid allweddol i fwydo i'r ymgyrch 'Adventure Smart' ledled y DU lle mae negeseuon iechyd a diogelwch yn cael eu hintegreiddio â gwaith i hyrwyddo a dehongli gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth antur. Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithio gydag Adventure Smart UK i ddatblygu'r negeseuon allweddol hyn. | Mae ymgyrchoedd ymweliad cyfrifol ar waith, gan weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio egwyddorion Ymweld yn Ddiogel, ac yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis y Timau Achub Mynydd, BMC a darparwyr gweithgareddau awyr agored i gyfleu negeseuon clir a chyson am ymweld â'r dirwedd yn ddiogel, yn barchus ac yn gyfrifol. |

# Newidiadau

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| 8.2 Cyd-destun, dealltwriaeth hanesyddol ac archaeolegol:<br><br>Ers 1972, gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn gyfrifol am wneud y gwaith ymchwil hanesyddol, yn seiliedig ar yr adnodd archif hwn a chan ymchwiliadau archaeolegol, a hynny dan nawdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r dogfennau a'r adroddiadau yn cael eu curadu ym Mhlas Tan y Bwlch, sef canolfan astudio'r Parc. Mae astudiaethau awdurdodol wedi'u cyhoeddi am y diwydiant ac am ei systemau cludiant. | Mae'r grŵp yn ymgymryd â digideiddio'r archifau, ar hyn o bryd trwy greu adroddiadau PDF fesul safle/chwarel. Mae trafodaethau yn parhau ynghyn â digideiddio llawn i safon archifo Cofnod Henebion Cenedlaethol a darpariaeth ar gyfer archifo hirdymor y cofnod corfforol |
| Mae rhaglenni cofnodi ac ymchwilio estynedig wedi'u gwneud gan archeolegwyr o Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) gan grwydro yn y chwareli hanesyddol, ymysg y nodweddion cludiant, y porthladdoedd a'r harbyrau, ac mae hyn wedi arwain at gatalog cynhwysfawr. Mae'r cofnodion hyn yn llunio rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sydd wedi'u guradu gan GAT, a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol sydd wedi'i guradu gan CBHC. Mae'r ddau gofnod hyn ar gael i'r cyhoedd...[sic] | Cofnod Amgylchedd Hanesyddol gogledd-orllewin Cymru ar gael i'r cyhoedd drwy Archwilio. |

| Gwreididol | Diwygiad |
|---|---|
| Y ddarpariaeth ddysgu bresennol:<br><br>Mae prosiectau presennol yn cynnwys Treftadaeth Ddisylw?, rhaglen o weithgareddau archaeoleg | Mae'r prosiect Treftadaeth Ddisylw? bellach wedi dod i ben |
| Y ddarpariaeth ddysgu bresennol (cyffredinol): | Fel rhan o'r prosiect Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol LleCHI LleNI, mae Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau a Swyddog Dehongli ac Ymgysylltu Cymunedol wedi'u penodi<br><br>Mae rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned LleCHI LleNI yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysg, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, o bob oedran, ac yn cynnwys elfennau megis hyfforddiant sgiliau traddodiadol, rhaglen o weithdai mewn ysgolion, banc o adnoddau addysg sydd ar gael ar gwefan Llechi Cymru, y sianel YouTube ac ar Casgliad y Werin.<br><br>Barddoniaeth \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>Caneuon \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>Lliwio \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>Mapiau \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>Gwersi CA2/3 \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>Chwiorydd y chwarel \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br>LleCHI LleNI \| Casgliad y Werin Cymru<br>Llechi Cymru - YouTube<br><br>Mae is-grŵp addysg a dysgu wedi'i ffurfio fel rhan o strwythur llywodraethu diwygiedig Safle Treftadaeth y Byd sydd yn cyfarfod dwy waith y flwyddyn<br><br>Mae gwybodaeth gan yr is-grŵp Addysg a Dysgu am ddarpariaeth addysg bresennol sy'n ymwneud â'r Safle Treftadaeth y Byd a'r dirwedd lechi ehangach, ac am adnoddau sydd ar gael / yn cael eu creu. |

| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| Y ddarpariaeth ddysgu bresennol (parhad): | Mae cwrs hyfforddiant Safle Treftadaeth y Byd bellach ar gael i staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd / cwsmeriaid (sawl sector, busnes ac ati).<br><br>Mae sawl cwrs Prifysgol Bangor yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd. Mae Llechi Cymru a Cadw yn cyfrannu tuag at y cwrs MA Treftadaeth Byd-eang.<br><br>Mae Llechi Cymru a'i bartneriaid yn hwyluso ymweliadau ar gyfer prifysgolion o ardal ehangach pan mae galw amdanynt.<br><br>Mae cyrsiau llysgennad Gwynedd ac Eryri yn rhedeg bob blwyddyn. Mae Llechi Cymru wedi sefydlu prosiect Llysgenhadon Llechi Ifanc. |



| Gwreididol | Diwygiad |
| --- | --- |
| 8.3 Annog dysgu<br>Pwysigrwydd gwaith ymchwil, hyfforddiant a gwerthuso:<br><br>Mae arysgrifiad llwyddiannus yn cynnig y posibilrwydd o rannu arferion da gyda Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys Tirwedd Diwydiannol Blaenafon, Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte a Chestyll a Muriau Trefi y Brenin Edward yng Ngwynedd. | • Mae Llechi Cymru yn rhannu esiamplau o arfer da gyda Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill yng Nghymru, yn ogystal â dynodiadau UNESCO eraill y DU drwy wahanol ffyrdd (e.e. cyfarfodydd gyda Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill, cynhadledd flynyddol World Heritage UK, digwyddiadau Comisiwn UNESCO DU a grwpiau llywio)<br>• Mae Llechi Cymru hefyd yn cynnig / darparu cyngor wedi'i deilwra i safleoedd posib sy'n gweithio tuag at arysgrifiad UNESCO e.e Haut-Martelange, Luxemourg and Valentia Island, Ireland |
| Strategaeth ymchwil academaidd:<br><br>Mae partneriaid a thîm Llechi Cymru yn helpu gydag ymholiadau gan fyfyrwyr ôl-raddedig (o Brifysgol Bangor ac ardaloedd ehangach). | • Mae partneriaid a thîm Llechi Cymru yn helpu gydag ymholiadau gan fyfyrwyr ôl-raddedig (o Brifysgol Bangor ac ardaloedd ehangach)<br>• Mae Llechi Cymru a Cadw yn cyfrannu at gwrs MA Treftadaeth Fyd-eang Prifysgol Bangor |
| Cyfleoedd cymunedol:<br><br>Mae cryn botensial ar gyfer annog ymgysylltu cymunedol...[sic] | Mae Prosiect LleCHI LleNI, a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn rhaglen eang o weithgareddau a digwyddiadau ar gyfer cymunedau o fewn ac o gwmpas y Safle Treftadaeth y Byd: LleCHI LleNI \| LLECHI CYMRU - WALES SLATE<br><br>Mae cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr sydd â diddordeb yn y maes treftadaeth wedi eu cefnogi. |

# Cynllun Gweithredu 2025-2030

## Cyflwyniad

Crëwyd Cynllun Gweithredu yn wreiddiol fel rhan o'r Cynllun Rheoli Eiddo yn 2020, ac fe'i cyflwynwyd i UNESCO fel rhan o'r broses enwebu. Diben y Cynllun Gweithredu oedd llywio gwaith partneriaeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth y Bartneriaeth.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn ffordd ymarferol o flaenoriaethu ymdrechion, ac mae hefyd yn fodd o fonitro cynnydd.

Bydd Cynllun Gweithredu 2025–2030 yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu, diogelu a hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd yn ystod ail hanner cyfnod y Cynllun Rheoli.



Danddaear, Chwarel Bryneglwys © Jon Knowles

# **Thema 1:** Llwyodraethu a Rheoli

| **Amcan 1** | Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn gweithio i arwain ar gamau i warchod, cadw, gwella a chyfathrebu rhinweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu arbenigrwydd diwylliannol a chryfhau'r Gymraeg, ac i ddod yn sbardun pwysig ar gyfer adfywiad economaidd a chynhwysiant cymdeithasol. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 1.1 | Bydd Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei gyflawni drwy system lywodraethu agored a thryloyw, gan sicrhau cynrychiolaeth y gymuned a'r sector preifat ar bob lefel. | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Cynnal model cydlynu priodol i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Cyngor Gwynedd a Cadw | Cydlynydd Treftadaeth y Byd mewn swydd | Rheolaeth effeithiol o'r Safle Treftadaeth y Byd |
| 2 | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn goruchwylio gweithrediad y Cynllun Rheoli | Parhaus | Cyngor Gwynedd | Nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal | Rheolaeth agored a thryloyw o'r Safle Treftadaeth y Byd, sicrhau atebolrwydd, a sicrhau strwythur rheoli cynrychioladol |
| 3 | Sicrhau bod dogfennau strategol perthnasol a rhaglenni sefydliadau partner yn dangos ystyriaeth o'r STyB | Parhaus | Llofnodwyr MoDd (partneriaid strategol) | Nifer o ddogfennau strategol yn rhoi ystyriaeth i'r Safle Treftadaeth y Byd | Cefnogaeth lefel uchel i'r STyB ar lefel genedlaethol / ranbarthol |
| 4 | Adolygu a diweddaru'r Cynllun Rheoli Risg | Blynyddol | Cydynlydd STyB | Adolygiad o'r Cynllun Rheoli Risg | Nodi'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r STyB, y dulliau lliniaru perthnasol, a nodi tueddiadau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Adolygu a diweddaru'r Asesiad Risg | Chwarterol | Cydynlydd Safle Treftadaeth y Byd | Cofrestr Risg ar waith | Rheoli effeithiol a phriodol o'r risgiau i'r Safle Treftadaeth y Byd |
| 6 | Sicrhau amrywiaeth eang o gynrychiolaeth o bob rhan o'r Safle Treftadaeth y Byd o fewn y strwythur rheoli | Parhaus | Cyngor Gwynedd | Nifer yr unigolion o'r sectorau a gytunwyd sy'n cael eu cynrychioli o fewn y strwythur rheoli | Mae rheolaeth y Safle Treftadaeth y Byd yn gynrychioliadol o bobl tirwedd y llechi |

# **Thema 2:** Gofalu am Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

| **Amcan 2** | | Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 2.1 | | Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r rhesymau dros fod angen gwarchod Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a’i rheoli’n weithredol er mwyn cynnal ei Werth Rhyngwladol Eithriadol | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Darperir hyfforddiant i benderfynyddion, gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau o’r pwyllgorau cynllunio lleol | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd | Ymwybyddiaeth cynyddol ymysg datblygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch nodweddion pwysig y STyB |
| Egwyddor 2.2 | | Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru drwy roi dynodiad statudol ar waith ar gyfer elfennau hanesyddol penodol sy’n diwallu’r meini prawf cenedlaethol | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Cwblhau rhaglen ddynodi ar gyfer asedau hanesyddol o fewn ffiniau’r Safle Treftadaeth y Byd sy’n diwallu’r meini prawf ar gyfer eu cofrestru neu restru | Tymor-byr | Cadw | Nifer yr asedau dynodedig | Gwarchod asedau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd |
| 2 | Adolygu Ardaloedd Cadwraeth presennol | Tymor-byr | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer yr adolygiadau a gwblhawyd | Gwarchod aneddiadau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Cynnal yr adolygiadau sydd ei angen er mwyn sefydlu Ardaloedd Cadwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac Abergynolwyn | Tymor-canolig | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd | Gwarchod aneddiadau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd |
| Egwyddor 2.3 | | Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru drwy ddefnyddio'r system cynllunio gofodol yn effeithiol | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd cyngor cyn gwneud cais cynllunio yn annog datblygiadau o faint priodol, ac yn annog dylunio da sy'n ymwybodol o gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer y cyn-geisiadau cynllunio o fewn y Safle Treftadaeth y Byd | Sicrhau bod datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd |
| 2 | Bydd penderfyniadau cynllunio yn ystyried yr angen i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer y ceisiadau cynllunio lle mae'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth | |

| **Amcan 3** | Caiff y Safle Treftadaeth y Byd ei reoli er mwyn cynnal a gwella ei Werth Rhyngwladol Eithriadol, ei gyfanrwydd a'i ddilysrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 3.1 | Cefnogir perchnogion safle i rheoli a gweithredu gwelliannau priodol i'w safleoedd | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd asedau hanesyddol yn destun rhaglen fonitro cyflwr strwythuredig | Tymor-canolig | Cadw | Arolwg Cyflyrau Henebion Cadw / Arolwg Adeiladau Mewn Perygl Cadw | Bydd asesiadau cyson yn hysbysu rheolwyr ac yn adnabod unrhyw risgiau |
| Egwyddor 3.2 | Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Caiff prosiectau cadwraeth eu datblygu a'u gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau | Tymor-byr / canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y prosiectau cadwraeth a gyflawnwyd gyda phartneriaid fel y corff arweiniol a / neu a ariannwyd gan bartneriaid | Bydd cadwraeth yr asedau yn sicrhau y gwarchodir y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol |
| 2 | Byddir yn chwilio am gyfleoedd ariannu i ddatblygu prosiectau cadwraeth | Tymor-canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth | Gwerth ariannol prosiectau cadwraeth a gyllidir gan bartneriaid a maint y grantiau a ddosberthir gan bartneriaid o fewn STyB ar gyfer prosiectau cadwraeth | Bydd defnyddio dull cydlynol at gadwraeth yn gwneud gwell defnydd o adnoddau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Rhaglen strwythuredig ar gyfer cofnodi asedau hanesyddol | Parhaus | CBHC | Nifer yr asedau hanesyddol a arolygwyd | Cofnod a dealltwriaeth well o Safle Treftadaeth y Byd |
| Egwyddor 3.3 | | Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd gwaith yn parhau i ganfod defnyddiau newydd i asedau hanesyddol allweddol gan gynnwys Melin Maenofferen | Tymor-canolig | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Nifer yr asedau hanesyddol allweddol a chanddynt ddefnydd newydd | Bydd ailddefnyddio asedau hanesyddol yn sicrhau eu hyfywedd yn y tymor hir, a'u cadwraeth at y dyfodol, ac yn ei dro bydd yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol |
| Egwyddor 3.4 | | Anogir cadwraeth gynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd a chyfranogiad y cyhoedd mewn rhaglenni cadwraeth | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Datblygir canllawiau dylunio i'r gymuned ac adnoddau rhannu gwybodaeth | Tymor-byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI | Canllawiau dylunio a ddosberthir i bartneriaid a rhanddeiliaid, yn cael eu cylchredeg yn ystod digwyddiadau | Perchnogaeth gymunedol o reolaeth y Treftadaeth y Byd |
| 2 | Bydd grwpiau gwirfoddol yn cael eu hannog i 'fabwysiadu heneb' ac / neu gymryd rhan mewn monitro, clirio llystyfiant a chadw asedau allweddol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a arweinir gan bartneriaid / aelodau'r is-grŵp grŵp Cynllunio a Chadwraeth | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Bydd prosiectau'n cyfrannu at restr enwau lleoedd hanesyddol yn Safle Treftadaeth y Byd / Cymru | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / CBHC / Prosiect LleCHI LleNI | Nifer y prosiectau sy'n cyfrannu at restr o enwau lleoedd hanesyddol yn STyB / Cymru a nifer o enwau lleoedd newydd | Cofnod gwell o enwau lleoedd yn y Safle Treftadaeth y Byd/ Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 4** | Bydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd a'r golygfeydd i mewn iddo ac allan ohono yn cael eu rheoli i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yr eiddo er budd cenedlaethau'r dyfodol | | | | |
| Egwyddor 4.1 | Defnyddir mesurau cyfredol i warchod y dirwedd a'r fframwaith cynllunio defnydd tir fel teclyn rheoli i warchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd a'r golygfeydd allweddol i mewn iddo ac allan ohono | | | | |
| Egwyddor 4.2 | Bydd unrhyw ddatblygiad newydd o ddyluniad, graddfa a màs priodol fel ei fod yn cadw ac yn cyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yr eiddo, yn parchu golygfeydd arwyddocaol ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyrraedd | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori cyn cyflwyno cais lle mae posibilrwydd y bydd cynigion yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol (y lleoliad a'r olygfa i mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd ac allan ohono) | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Gweler egwyddor 3.3 am yr un mesur | Datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd |
| 2 | Bydd Cam Gweithredu 1 (uchod) yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cynnwys y manylder a'r asesiad priodol sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad | Parhaus | Awdurdodau Cynllunio Lleol | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Sefydlu golygfeydd arwyddocaol sylfaenol at ddibenion monitro | Parhaus | Is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio | Dim canlyniad mesuradwy; monitro trwy drafodaethau yn is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio | N/A |
| 4 | Darparu cyfleoedd i ddatblygwyr drafod cysyniadau gyda chynrychiolwyr Safle Treftadaeth y Byd cyn dechrau'r broses gynllunio ffurfiol | Parhaus | Grwp Adborth Anffurfiol | Nifer y sesiynau adborth anffurfiol | Datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd |

# **Thema 3 :** Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

<table>
<tr><td colspan="2">Amcan 5</td><td colspan="4">Cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd drwy feithrin tirwedd fyw a chymunedau ffyniannus</td></tr>
<tr><td colspan="2">Egwyddor 5.1</td><td colspan="4">Cefnogir mentrau i adnabod ac i weithredu cyfleoedd adfywio a chadwraeth lleol sy'n cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd, yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn meithrin ymdeimlad o falchder ac uchelgais o fewn cymunedau lleol</td></tr>
<tr><td>Rhif</td><td>Pwynt Gweithredu</td><td>Amserlen</td><td>Cyfrifoldeb</td><td>Allbwn Mesuradwy</td><td>Canlyniad</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Bydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn parhau i gael ei nodi fel blaenoriaeth o fewn blaenoriaethau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd</td><td>Parhaus</td><td>Cyngor Gwynedd</td><td>Mae Cynllun Cyngor Gwynedd yn nodi'r Safle Treftadaeth y Byd fel blaenoriaeth</td><td>Cefnogaeth lefel uchel i'r Safle Treftadaeth y Byd gan yr Awdurdod Lleol</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Datblygir ac fe weithredir strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le ar gyfer cymunedau llechi allweddol</td><td>Parhaus</td><td>Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Ardal Ni , Partneriaid Strategol, Cymunedau</td><td>Nifer y strategaethau a gwblhawyd</td><td rowspan="2">Mae adfywio yn arwain at gymunedau a chyrchfannau gwell</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Bydd prosiectau adfywio a chadwraeth yn cael eu gweithredu er budd cymunedau llechi</td><td>Parhaus</td><td>Bwrdd Partneriaeth ac is-grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol</td><td>Nifer y prosiectau a weithredwyd</td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Ceisir buddsoddiad er mwyn gweithredu blaenoriaethau adfywio a chadwraeth, gan ddefnyddio statws y Safle Treftadaeth y Byd fel catalydd ar gyfer buddsoddi | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth ac is-grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol | Cyfanswm y buddsoddiad | Mae adfywio yn arwain at gymunedau a chyrchfannau gwell |
| 5 | Creu cyfleoedd cyflogaeth yn y sector treftadaeth gan ddefnyddio statws y Safle Treftadaeth y Byd fel catalydd ar gyfer cyfleoedd gwaith | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth ac is-grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol, Busnesau | NIfer o swyddi a grewyd | Mae adfywio yn creu cyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector treftadaeth |
| 6 | Cefnogi'r ymdrechion cadwraeth preifat a gwirfoddol | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth ac is-grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol, Tirfeddianwyr | Nifer y prosiectau cadwraeth a gefnogwyd | Cedwir nodweddion Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol |
| 7 | Bwrw ymlaen ag cyfleoedd adfywio unigol drwy gyflawni prosiectau ary cyd | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth ac is-grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol | Nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnwyd | Bydd dull cydgysylltiedig o adfywio yn arwain at well defnydd o adnoddau |
| 8 | Sicrhau bod y STyB yn hwyluso cyfleoedd i dirfeddianwyr a pherchnogion safle i rwydweithio / rhannu syniadau / rhannu arferion gorau | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth, is-grŵp Buddion, rhanddeiliaid, tirfeddianwyr | Nifer y sesiynau (rhwydweithio, rhannu syniadau, arferion gorau) | Cyflawni prosiectau'n llwyddiannus a chael y canlyniadau gorau |

| Amcan 6 | | Diwydiant mwynau cynaliadwy | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 6.1 | | Bydd echdynnu mwynau cynradd y tu allan i Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei reoli drwy'r broses gynllunio mwynau bresennol; ni fydd echdynnu mwynau yn digwydd o fewn ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd na Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd pob caniatâd yn ddarostyngedig i adolygiadau cyfnodol ac yn ofynnol cadw at amodau'r caniatâd | Parhaus | Gwasaneth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Nifer yr adolygiadau cyfnodol a gynhaliwyd | Rheoli echdynnu mwynau cynradd er mwyn cynnal diwydiant allweddol yng Ngwynedd a chryfhau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol |
| 2 | Nodi dulliau adfer addas ar gyfer tirluniau chwareli ar ôl cau er mwyn cefnogi'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a chadw nodweddion y dirwedd ddiwydiannol | Parhaus | Gwasaneth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Nifer y prosiectau adfer a nodwyd ac a gynhwyswyd mewn adolygiadau achlysurol | Cedwir nodweddion y dirwedd ddiwydiannol ac fe gefnogir y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol |
| 3 | Bydd cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau cadwraeth ac agregau yn cael ei gynnal, a bydd defnydd o agregau eilaidd yn cael ei wella lle bynnag y bo modd | Parhaus | Gwasaneth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ar gyfer echdynnu mwynau / defnydd o agregau eilaidd | Cyflenwi deunyddiau ar gyfer gwaith cadwraeth a datblygiadau newydd er mwyn sicrhau bod cymeriad lleol yn cael ei gadw |

<table>
<tr><td colspan="2">Amcan 7</td><td colspan="4">Sicrhau bod uchelgeisiau ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu mewn cytgord â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Egwyddor 7.1</td><td colspan="4">Cynigion sy'n gwneud defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer ynni adnewyddadwy heb effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol fydd yn cael eu cefnogi, yn amodol ar ofynion y Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol a pholisi cynllunio</td></tr>
<tr><td>Rhif</td><td>Pwynt Gweithredu</td><td>Amserlen</td><td>Cyfrifoldeb</td><td>Allbwn Mesuradwy</td><td>Canlyniad</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Annog cyfarfodydd cyn-cynllunio ar gyfer pob datblygiad ynni adnewyddadwy arfaethedig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd</td><td>Parhaus</td><td>Awdurdod Cynllunio Lleol</td><td>Nifer y cyn-geisiadau ynni adnewyddadwy o fewn y Safle Treftadaeth y Byd.</td><td rowspan="2">Mae'r Safle Treftadaeth y Byd a'r osodiad wedi ei warchod ac mae datblygiad newydd yn sensitif ac addas</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Ymgynghori ag ICOMOS-UK ynghylch datblygiadau sydd â'r potensial i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd</td><td>Parhaus</td><td>Awdurdod Cynllunio Lleol / is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth</td><td>Ymgynghoriadau ffurfiol ag ICOMOS-UK</td></tr>
</table>

| **Amcan 8** | Diogelu a datblygu'r amgylchedd adeiledig | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 8.1 | Bydd tai newydd o fewn neu gerllaw'r Safle Treftadaeth y Byd yn ystyried yr angen i warchod a gwella'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Darparu cyfleoedd i ddatblygwyr tai drafod syniadau cysyniadol gyda chynrychiolwyr y Safle Treftadaeth y Byd cyn mynd i mewn i'r broses gynllunio ffurfiol | Parhaus | Grŵp Cyngor Anffurfiol | Nifer y sesiynau cyngor anffurfiol a gynhelir ar gynlluniau tai | Mae datblygiadau o raddfa briodol ac yn hybu dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd. |
| 2 | Defnyddio'r polisi cynllunio presennol i sicrhau bod pob datblygiad yn briodol ac yn ystyried y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol | Parhaus | Awdurdod Cynllunio Lleol | Nifer y datblygiadau tai (wedi'u mesur ar ôl eu hadeiladu drwy wybodaeth y gwasanaeth cynllunio) | Bydd y cymeriad hanesyddol yn cael ei gynnal a'i ddiogelu |
| Egwyddor 8.2 | Cefnogir yr ailddefnyddio addasol priodol o adeiladau hanesyddol segur (gan gynnwys mannau addoli) | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Datblygu prosiectau sy'n ailddefnyddio adeiladau hanesyddol at ddiben economaidd | Parhaus | Grwpiau Cymunedol / datblygwyr | Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ar gyfer prosiectau i ailddefnyddio adeiladau hanesyddol | Bydd y cymeriad hanesyddol yn cael ei gynnal a'i ddiogelu |

| **Amcan 9** | Diwydiannau Amaethyddiaeth a Choedwigaeth Gynaliadwy | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 9.1 | Cefnogi amrywiaeth amaethyddol sy'n cyfrannu at wella mynediad a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Annog tirfeddianwyr i ymgorffori gwell mynediad a dehongliad yn eu datblygiadau lle bo'n briodol | Parhaus | Tirfeddianwyr<br>Grŵp Buddion | Nifer yr ymyrraethau a gwblhawyd | Hwyluso gwell mynediad a dealltwriaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd |

| **Amcan 10** | Trafnidiaeth Gynaliadwy | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 10.1 | Anogir defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio i ymweld â'r Safle Treftadaeth y Byd | | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Datblygu tethlenni i annog teithio cynaliadwy i ac o fewn y Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | LleCHI Lle NI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Busnesau | Nifer o deithlenni a ddatblygwyd | Annog ymweld cynaliadwy â'r Safle Treftadaeth y Byd |
| 2 | Prosiectau trafnidiaeth gynaliadwy a ddatblygwyd | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth ac is grwpiau, Partneriaid Strategol, Partneriaid Cymunedol | Nifer y prosiectau a gwblhawyd | |

# **Thema 4 :** Mwynhau Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

| **Amcan 11** | | Sicrhau y gall cymunedau lleol ac ymwelwyr fwynhau, profi a deall Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 11.1 | | Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn diogelu gwerthoedd diriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd y Strategaeth Ddehongli ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd yn hysbysu ymwelwyr o bwysigrwydd y lleoliad yn y Safle Treftadaeth y Byd a chan hefyd gyfleu'r asedau treftadaeth diriaethol ac anniriaethol | Tymor canolig | Prosiect LleCHI LleNI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y prosiectau dehongli a ddatblygwyd | Bydd gwahanol ddulliau dehongli yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu i gynulleidfa eang |
| 2 | Ymchwilio i gyfleoedd ariannu er diogelu / hyrwyddo asedau a thraddodiadau | Tymor canolig | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Cyfanswm yr arian a sicrhawyd | Bydd prosiectau sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd yn cryfhau dealltwriaeth |

| Egwyddor 11.2 | | Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Safle Treftadaeth y Byd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd strategaeth ddehongli yn hysbysu partneriaid a rhanddeiliaid am y weledigaeth, y prif negeseuon a blaenoriaethau cyfathrebu'r Safle Treftadaeth y Byd er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus ar ddehongli | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth | Strategaeth Ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd wedi'i datblygu ac yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen | Mae'r Strategaeth Ddehongli ar gael ar wefan Llechi Cymru |
| 2 | Cynnal digwyddiadau er mwyn trosglwyddo gwybodaeth, annog rhannu profiadau rhwng rhanddeiliaid a hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | LleCHI Lle NI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd / a fynychwyd gan gynrychiolwyr y Safle Treftadaeth y Byd | Gwell dealltwriaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd |
| 3 | Bydd Llysgennhadon yn llefarwyr ar ran y Safle Treftadaeth y Byd ac yn cyfleu'r prif negeseuon | Parhaus | LleCHI LleNI / APCE / Cyngor Gwynedd | Nifer y llysgenhadon newydd | Cynnydd mewn balchder a gwell dealltwriaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd |
| 4 | Creu a datblygu cysylltiadau â sefydliadau treftadaeth er mwyn rhannu arferion gorau | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Aelodaeth o WHUK ac unrhyw grwpiau perthnasol eraill | Bydd rhannu arferion gorau yn arwain at reolaeth fwy effeithiol o'r Safle Treftadaeth y Byd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Sefydlu model rheoli ymwelwyr er mwyn annog ymwelwyr i ymweld â holl rannau'r Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Is-grŵp Dehongli STyB / Eco Amgueddfa | Model rheoli ymwelwyr y Safle Treftadaeth y Byd ar waith | Bydd dull cysylltiedig o reoli a symud ymwelwyr o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd yn cynyddu dealltwriaeth o'r dirwedd lechi ac yn lledaenu buddion economaidd a chymdeithasol ar draws yr ardal |
| 6 | Gweithredu mesurau i fynd i'r afael ag effeithiau troseddau treftadaeth ar asedau hanesyddol ac eiddo eraill o fewn Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Bwrdd Partneriaeth, tirfeddianwyr, budd ddeiliaid | Camau gweithredu ar lefel weithredol tuag at fynd i'r afael â throseddau treftadaeth | Cydweithio effeithiol tuag at liniaru troseddau treftadaeth |

| Egwyddor 11.3 | | Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn ymdrechu i nodi, rheoli a lliniaru pwysau ymwelwyr o fewn y Safle Treftadaeth y Byd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Sicrhau cydblethiant â'r Strategaeth G&E2035 | Parhaus | Cyngor Gwynedd | Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth o fewn y strategaeth a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig | Safle Treftdadaeth y Byd wedi ei gynnwys yng nghynllun G&E2035 |
| 2 | Gweithio gyda sefydliadau cymunedol lleol a phartneriaid strategol i nodi a lliniaru pwysau ymwelwyr o fewn ac / neu o ganlyniad i'r Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / LleCHI LleNI | Nifer y prosiectau a weithredwyd mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol ac / neu bartneriaid strategol | Bydd dull partneriaethol o liniaru'r pwysau a nodwyd yn sicrhau cefnogaeth ar bob lefel ac yn galluogi dull cynaliadwy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Sefydlu dull seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nodi pwysau ymwelwyr | Parhaus | Cydlynydd STYB | Nifer y prosiectau ymchwil a gynhaliwyd ym maes rheoli ymwelwyr / canfyddiadau ymwelwyr | Bydd dull gwybodus yn arwain at ddull wedi'i dargedu i liniaru'r pwysau a nodwyd |
| 4 | Dull trawsadrannol / traws-sefydliadol o ymateb i bwysau ymwelwyr | Parhaus | Cyngor Gwynedd / Bwrdd Partneriaeth | Cynllun G&E2035 wedi ei fabwysiadau ac yn cael ei weithredu | |
| 5 | Asesu a monitro effaith pwysau ymwelwyr ar y Gymraeg o fewn cymunedau llechi | Blynddol | Cyngor Gwynedd / Bwrdd Partneriaeth | Defnyddio'r data monitro iaith Gymraeg a gasglwyd drwy Arolwg Preswylwyr, gweithgareddau LleCHI LleNI a hyfforddiant busnes | Iaith Gymraeg ddim yn cael ei effeithio gan bwysau ymwelwyr |
| 6 | Cefnogi cymunedau a thirfeddianwyr gyda chyngor a chyllid i liniaru / rheoli pwysau ymwelwyr | Parhaus | Cydlynydd STyB / LleCHI LleNI | Nifer y grantiau a ddyfarnwyd drwy LleCHI LleNI | Bydd dull partneriaethol o liniaru'r pwysau a nodwyd yn sicrhau cefnogaeth ar bob lefel ac yn galluogi dull cynaliadwy |

| Egwyddor 11.4 | | Creu profiad ymwelwyr o'r ansawdd uchaf | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Bydd llysgenhadon yn darparu gwybodaeth rheng-flaen i ymwelwyr, gan gynnig profiadau dilys | Parhaus | LleCHI LleNI / APCE / Cyngor Gwynedd | Nifer y llysgenhadon newydd | Mwy o ymdeimlad o falchder a dealltwriaeth yn lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Cynnal digwyddiadau er mwyn rhannu gwybodaeth ac annog cyfnewid profiadau rhwng rhanddeiliaid | Parhaus | Cydlynydd STyB / LleCHI LleNI | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan neu mewn partneriaeth â Llechi Cymru | Bydd digwyddiadau gwybodaeth sy'n seiliedig ar y Safle Treftadaeth y Byd yn cryfhau dealltwriaeth y mynychwyr |
| 3 | Datblygu adnoddau canolog i alluogi busnesau a chymunedau i ddehongli a rhannu gwybodaeth am y STyB | Parhaus | Cydlynydd STyB | Nifer yr adnoddau ar wefan Llechi Cymru | Bydd dull cydgysylltiedig o ddehongli yn sicrhau profiadau ymwelwyr cydlynol a dilys |
| 4 | Datblygu a gweithredu strategaeth arwyddion ar gyfer cymunedau'r STyB | Tymor Canolig | Cydlynydd STyB | Strategaeth arwyddion ar waith. Nifer yr cynlluniau arwyddion a gwblhawyd | |
| 5 | Cefnogi atyniadau, seilwaith a phrofiadau o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes, ac annog darpariaeth newydd | Parhaus | Is Grŵp Buddion / Eryri Mynyddoedd a Mor | Nifer yr atyniadau yn derbyn cymorth (amser staff, hyrwyddo neu gyllid) | Profiad gwell i ymwelwyr i'r tirwedd llechi |
| 6 | Cefnogi ac annog prosiectau twristiaeth gymunedol | Parhaus | Is Grŵp Buddion / Eryri Mynyddoedd a Môr | Nifer y prosiectau twristiaeth gymunedol a dderbyniodd gymorth (amser staff, hyrwyddo neu gyllid) | |

| Egwyddor 11.5 | | Bydd y STyB yn cael ei farchnata a'i gyfathrebu fel un safle, gyda'r elfennau unigol yn adrodd eu straeon unigryw eu hunain | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Sicrhau cydweithio a chysondeb â gwaith marchnata brand y cyrchfan (Eryri Mynyddoedd a Môr) | Parhaus | Cydlynydd STYB / Cyngor Gwynedd / Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI | Gwybodaeth am y Safle Treftadaeth y Byd ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr | Safle Treftadaeth y Byd wedi'i leoli ar blatfform marchnata cenedlaethol a rhyngwladol |
| 2 | Gweithio gyda Croeso Cymru ar Flynyddoedd Themâu, The Wales Way ac unrhyw brosiectau twristiaeth strategol cenedlaethol eraill | Tymor hir | Cydlynydd STYB / Croeso Cymru | Gwybodaeth am y Safle Treftadaeth y Byd ar wefan Croeso Cymru, ac yn cael ei defnyddio mewn ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru | |
| 3 | Targedu marchnadoedd ymwelwyr rhyngwladol | Tymor Canolig | Cydlynydd STyB / Cyngor Gwynedd | Nifer yr adnoddau a / neu ymgyrchoedd sy'n targedu ymwelwyr rhyngwladol yn uniongyrchol | |

<table>
<tr><td colspan="2">Egwyddor 11.6</td><td colspan="4">Gweithio i greu amgylchedd diogel ar gyfer mwynhau'r Safle Treftadaeth y Byd</td></tr>
<tr><td>Rhif</td><td>Pwynt Gweithredu</td><td>Amserlen</td><td>Cyfrifoldeb</td><td>Allbwn Mesuradwy</td><td>Canlyniad</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Datblygu a gweithredu ymgyrch ddiogelwch ar gyfer y dirwedd lechi</td><td>Tymor Canolig</td><td>Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / LleCHI LleNI</td><td>Negeseuon diogelwch wedi'u cynnwys mewn gweithgareddau hyrwyddo, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefan, dehongli ac ati</td><td rowspan="2">Sicrhau diogelwch ymwelwyr i'r Safle Treftadaeth y Byd a sicrhau preifatrwydd safleoedd na ellir cael mynediad atynt</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Sicrhau bod neges diogelwch yn cael ei chynnwys ym mhob prosiect dehongli a ddatblygir neu a gefnogir gan y Bartneriaeth</td><td>Parhaus</td><td>Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / LleCHI LleNI</td><td>Nifer y prosiectau dehongli sy'n cynnwys neges diogelwch</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Datblygu a hyrwyddo llwybrau strategol sy'n archwilio'r Safle Treftadaeth y Byd a'r rhanbarth ehangach</td><td>Parhaus</td><td>Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / LleCHI LleNI</td><td>Nifer o deithlenni a ddatblygwyd gan Llechi Cymru</td><td rowspan="2">Annog ymwelwyr i deithio o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd er mwyn profi'r stori lawn</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Lle nad yw mynediad i'r cyhoedd yn bosibl neu lle y caiff ei wahardd, darparu dehongliad rhithwir neu loeren o'r safleoedd hynny</td><td>Parhaus</td><td>Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / LleCHI LleNI</td><td>Nifer y prosiectau dehongli digidol a ddatblygwyd gan Llechi Cymru</td></tr>
</table>

# **Thema 5 :** Dysgu am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

| **Amcan 12** | | Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn ganolbwynt dysgu ac ymchwil y gellir eu rhannu ag eraill, ac mae'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i werthoedd a'i briodweddau | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddor 12.1 | | Sefydlir cysylltiadau â darparwyr addysg i feithrin cyfleoedd ar gyfer rhaglenni dysgu cynhwysol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd | | | |
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Datblygu cysylltiadau ag Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Prifysgol Bangor | Nifer y seminarau, digwyddiadau ayyb., yr ymgymerwyd â hwynt | Cynyddu dealltwriaeth o'r dirwedd llechi a hanes diwydiannol ar lefel academaidd |
| 2 | Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs BA Treftadaeth a Newid Hinsawdd ym Mhrifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Prifysgol Bangor | Cwrs BA yn ei le | Cynyddu dealltwriaeth o dreftadaeth a newid hinsawdd ar lefel academaidd |
| 3 | Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs MA Treftadaeth y Byd a Rheoli Treftadaeth ym Mhrifysgol Bangor | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg | Cwrs MA yn ei le | Cynyddu dealltwriaeth o reoli treftadaeth ar lefel academaidd |
| 4 | Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd i gynorthwyo a datblygu ymchwil Meistr a PhD a grantiau gyda Phrifysgolion | Parhaus | Prifysgolion, partneriaid STyB | Nifer y Meistr / doethuriaethau (PhD) / grantiau yr ymgymerwyd â hwynt, cyfweliadau partner / gohebiaeth gyda myfyrwyr | Cynyddu dealltwriaeth o'r dirwedd llechi a hanes diwydiannol ar lefel academaidd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Cynnig sesiynau cysylltiedig â Safleoedd Treftadaeth y Byd i brifysgolion eraill (y DU a gwledydd eraill) | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / partneriaid | Nifer y prifysgolion / myfyrwyr / sesiynau | Cynyddu dealltwriaeth o'r dirwedd llechi a hanes diwydiannol ar lefel academaidd |
| 6 | Cynnal cysylltiadau â grŵp archaeoleg diwydiannol ymarferol Plas Tan y Bwlch – etifeddiaeth o gyrsiau arbenigol APC Eryri; Cynnal archif bapur y grŵp; Cefnogi rhaglen ddigideiddio'r grŵp | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / APCE | Nifer yr arolygon safleoedd a gafodd eu cynnal gan y grŵp; nifer yr adroddiadau a archifwyd | Cofnod gwell o safleoedd a nodweddion; Mwy o fynediad cyhoeddus at wybodaeth o ansawdd uchel ynghyn â ffurf ac amodau nodweddion |
| 7 | Datblygu a chynnal gweithdai ysgolion | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu sgiliau | Nifer y sesiynau'r flwyddyn, nifer yr ysgolion sydd wedi cymryd rhan (nifer yr ysgolion a gynigwyd sesiynau / adnoddau iddyn nhw a faint a fanteisiodd) y flwyddyn, nifer y disgyblion y flwyddyn sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau | Dealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach am dirwedd llechi ymysg disgyblion ac athrawon ysgol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Datblygu adnoddau addysgol | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu sgiliau | Nifer yr adnoddau a grëwyd, nifer y sesiynau lle defnyddir adnoddau, nifer y mynychwyr | Dealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach am dirwedd llechi ymysg y rheini sy'n defnyddio adnoddau (disgyblion ac athrawon, ac ati) |
| 9 | Datblygu is-grŵp Dysgu ac Addysg i rannu gwybodaeth, adnoddau, arferion gorau ac annog cydweithrediad. Cynnal 2 gyfarfod y flwyddyn | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau | Nifer yr aelodau grŵp, cyfarfodydd, adnoddau a grëir gan bartneriaid bob blwyddyn | Gwelliannau wrth adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, mwy o weithio cydweithredol, ymwybyddiaeth uwch ymhlith partneriaid a'r sector ehangach o'r adnoddau sydd ar gael a sut i'w defnyddio, monitro'r safon o adnoddau a'u lledaenu'n effeithiol. Defnydd cynyddol o adnoddau mewn lleoliadau addysgol |
| 10 | Creu a hyrwyddo adnoddau ar gyfer eu defnyddio yn y sector addysg sy'n cyd-fynd â phwyslais y Cwricwlwm i Gymru. Sicrhau mynediad trwy eu cynnal mewn lleoliad penodol (e.e., Hwb Cymru neu hwb/gwefan), gan sicrhau fformat hygyrch | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu Sgiliau / is-grŵp Addysg a Dysgu / partneriaid a rhanddeiliaid | Nifer yr adnoddau hygyrch | Mynediad at ddealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach am dirwedd llechi ymhlith disgyblion ysgol ac athrawon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Cynhelir hyfforddiant sgiliau traddodiadol / darpariaeth / hyrwyddo mewn partneriaeth gyda busnesau, sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg / hyfforddiant | Tymor-canolig | Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y prosiectau sgiliau traddodiadol a gyflawnwyd yn uniongyrchol trwy weithgareddau Llechi Cymru | Sicrhau bod medrau traddodiadol yn cael eu cadw i'r genhedlaeth nesaf a bod sgiliau priodol ar gael i gadw a chynnal asedau hanesyddol; bydd cadwraeth yr asedau hanesyddol yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol |
| 12 | Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol mewn cymunedau i oedolion | Parhaus | Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / partneriaid a rhanddeiliaid | Nifer y cyfleoedd dysgu anffurfiol / cyrsiau, nifer y mynychwyr | Dealltwriaeth a gwybodaeth ddyfnach o dirwedd llechi ymysg y rhai sy'n mynychu cyrsiau |

| Egwyddor 12.2 | | Datblygu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc ddysgu am y Safle Treftadaeth y Byd | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Sefydlu a chynnal prosiect Llysgenhadon Llechi Ifanc. Bydd fynychwyr yn dysgu am Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu sgiliaur | Nifer y bobl ifanc a ymgysylltir â hwy bob blwyddyn yn ystod y proses recriwtio, nifer y sesiynau'r flwyddyn | Mae pobl ifanc yn cael dealltwriaeth well o dirwedd lechi, cynyddu dealltwriaeth o gyfleoedd gyrfaoedd treftadaeth yn yr ardal leol |
| 2 | Hwyluso cyfleoedd lleoli gwaith i bobl ifanc fel rhan o brosiect ymgysylltu cymunedol LleCHI LleNI | Parhaus | Swyddog Dysgu a Datblygu sgiliau | Nifer y cyfleoedd lleoliadau gwaith, nifer y mynychwyr | |

| Principle 12.3 | Sefydlir cysylltiadau â chyrff cenedlaethol / rhyngwladol i hyrwyddo ymchwil academaidd, rhaglenni addysgiadol a theithiau cyfnewid proffesiynol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Meithrin cysylltiadau cryfach gyda TICCIH | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg | Nifer y cynadleddau ac ymweliadau cyfnewid, nifer o bapurau a chyfrannwyd iddyn nhw | Cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun gwaith maen a diwydianeiddio ledled y byd |
| 2 | Datblygu cysylltiadau gyda safleoedd treftadaeth eraill yn genedlaethol / rhyngwladol | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y cyfarfodydd ac ymweliadau cyfnewid a gynhaliwyd | Cyfle i rannu arfer gorau a gwybodaeth |
| 3 | Adeiladu ar gysylltiadau rhyngwladol | Tymor-byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd | Nifer y cyfarfodydd ac ymweliadau cyfnewid a gynhaliwyd | Cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun gwaith maen a diwydianeiddio ledled y byd |

| Egwyddor 12.4 | Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a dysgu am agweddau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Rhannu arfer gorau mewn twristiaeth | Parhaus | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / APCE / Cyngor Gwynedd | Nifer y cyfarfodydd a chynadleddau a gynhaliwyd | Cyfle i rannu arfer gorau a gwybodaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Annog ymwelwyr i ddychwelyd i fynychu cyrsiau sy'n ymwneud â Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru neu i gymryd rhan mewn rhaglenni gwirfoddol | Tymor-byr | Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg / Darparwyr Twristiaeth | Nifer y mynychwyr cyrsiau o'r tu allan i Wynedd | Dealltwriaeth gynyddol o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i Werth Rhyngwladol Eithriadol |
| 3 | Annog presenoldeb ar, cyfranogiad at, a hysbysebu cyrsiau Llysgennad Gwynedd a Llysgennad Eryri | Parhaus | Cydlynydd STyB / Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI / APCE / Cyngor Gwynedd | Nifer y mynychwyr cyrsiau, nifer y cyrsiau a chyfrannwyd iddyn nhw | Cyfle i rannu arfer gorau, dealltwriaeth gynyddol o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i Werth Rhyngwladol Eithriadol |
| 4 | Datblygu a darparu hyfforddiant sy'n annog ymwelwyr i gael dealltwriaeth well o'r dirwedd lechi | Parhaus | Rheolwr Prosiect LleCHI LleNI / Cydlynydd STyB | Nifer y sesiynau hyfforddi'r flwyddyn, nifer y mynychwyr ar gyrsiau [gan gynnwys Cwrs Busnes a Chwrs Cynefin a Chymuned] | Dealltwriaeth well o Safle Treftadaeth y Byd i'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau sy'n ymwneud â'r economi ymweld, a fydd o ganlyniad yn godi ymwybyddiaeth o'r STyB i ymwelwyr |

| Amcan 12.5 | | Bydd ymchwilwyr yn cael eu hannog i rannu ag eraill eu gwybodaeth a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Pwynt Gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb | Allbwn Mesuradwy | Canlyniad |
| 1 | Hyrwyddo cynadleddau a chyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil yn ogystal â chanfyddiadau o ymchwil sy'n seiliedig yn y gymuned | Parhaus | Cydlynydd STyB / Darparwyr Addysg | Nifer y cynadleddau a gynhaliwyd, a'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd a phrosiectau ymchwil sy'n seiliedig yn y gymuned | Cynyddu dealltwriaeth ar lefel academaidd a cymunedol |



Holltwyr Llechi, Llechwedd © Archifau Gwynedd

Mae'r adolygiad canol tymor a'r atodiad hwn yn cynrychioli gweledigaeth ac ymrwymiad gan bartneriaid i weithredu yn unol a'i gynnwys er budd Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru. Fe'i cynhyrchwyd gan y Bwrdd Partneriaeth yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2025 - 2030. Bydd Cynllun Rheoli newydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd yn 2030.